

Adroddiad Arolygu o Bractis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Canna Surgery, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 10 Rhagfyr 2024

Dyddiad cyhoeddi: 12 Mawrth 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	15
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4.	Y camau nesaf	26
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith.....	28
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	29

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Canna Surgery, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 10 Rhagfyr 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd gofal iechyd AGIC a thri adolygydd cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o 28 o holiaduron gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd naw gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Mae canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Roedd canfyddiadau ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a dywedodd pob un ohonynt fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn', a gwelsom y staff yn siarad mewn ffordd gwrtais a pharchus â'r cleifion.

Gwelsom fod y practis yn pwysleisio hybu iechyd a llesiant i gleifion. Roedd amrywiaeth eang o wybodaeth i'w gweld, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, gwasanaethau sgrinio a rhoi'r gorau i smygu.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol. Mae'r practis hefyd wedi rhoi system 'ffonio nôl' ar waith, sy'n rhoi'r opsiwn i'r cleifion ddewis i'r practis eu ffonio nôl pan fyddant ar flaen y ciw ffôn.

Roedd mynediad i'r safle yn dda ar y cyfan, ac roedd yn cynnig mynediad hawdd i gleifion ag anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhai cleifion â phroblemau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn ei chael hi'n anodd defnyddio prif ddrysau'r adeilad oherwydd eu lled. Roedd y practis wedi rhoi system seinydd ar waith er mwyn i'r cleifion y mae angen help arnynt i fynd i mewn i'r adeilad roi gwybod i'r staff.

Dylai'r practis wella'r gwasanaeth hebryngwr a gynigir, drwy arddangos mwy o hysbysiadau yn ei ardaloedd trin clinigol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi gwybod i'r cleifion am staff sy'n siarad Cymraeg
- Ffurfioli trefniadau ar gyfer y cleifion y mae angen help arnynt i fynd i mewn i'r adeilad
- Arddangos mwy o hysbysiadau mewn perthynas â'r gwasanaeth hebryngwr, gan gynnwys mewn ardaloedd trin clinigol

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a'u bod yn cael gwasanaeth da
- Mae gwybodaeth dda am hybu iechyd ar gael
- Mae system ffonio cleifion yn ôl wedi cael ei rhoi ar waith ac mae adborth y cleifion yn gadarnhaol

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Dangosodd ein canfyddiadau dîm clinigol ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn gweithio'n galed i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen cryfhau rhai agweddau er mwyn sicrhau bod y practis yn cynnal safonau gofynnol atal a rheoli heintiau bob amser. Roedd y rhain yn cynnwys diweddaru polisiau a gweithdrefnau allweddol gyda gwybodaeth benodol i'r practis, gwelliannau i'r siart lif anaf a achosir gan nodwydd, y system rheoli gwastraff a'r amserlenni glanhau dan gontract.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi'n ddiogel, roedd y broses i'w defnyddio gan gleifion i ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi rhagnodi cyffredinol ar waith ac nid oedd yn glir pwy oedd yn gweithredu fel yr arweinydd rhagnodi yn y practis.

Roedd proses cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau neu frechlynnau yr oedd angen eu cadw mewn oergell. Roedd archwiliadau cadwyn oer ac archwiliadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau ddwywaith y dydd, a oedd yn cynnwys llwybr clir i'w ddilyn.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Roedd y rhain yn cael eu cadw mewn ardal lle y gallai'r staff gael gfael arnynt yn ddiraffferth mewn argyfwng.

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol ar waith a oedd yn cael eu hatgyfnerthu gan bolisi. Fodd bynnag, roedd angen i rai aelodau o'r staff gwblhau hyfforddiant gloywi ar ddiogelu. Wrth edrych ar gofnodion cleifion, cawsom anhawster nodi pa gleifion oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant.

Roedd cofnodion y cleifion o ansawdd da ac roeddent yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd angen cyfrinair i'w hagog er mwyn atal unrhyw fynediad heb awdurdod. Roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac wedi'u cwblhau gan ddefnyddio gwybodaeth briodol, gan ddangos prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli achosion o salwch aciwt a chronig. Fodd bynnag, mae angen cwblhau archwiliadau er mwyn sicrhau cywirdeb crynodebau gan godwyr anghlinigol.

Roedd ymatebion y staff a gwblhaodd yr holiadur yn gadarnhaol. Roedd pob aelod o'r staff yn teimlo mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth y practis hwn ac roedd pob un ohonynt yn fodlon ar ymdrechion y practis i gadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Nid oedd unrhyw bolisi rhagnodi cyffredinol ar waith ac nid oedd yn glir pwy oedd yn gweithredu fel arweinydd rhagnodi ar gyfer y practis
- Cynnal archwiliad blynyddol o'r gofrestr amddiffyn plant a'r cywirdeb codau ar gyfer unigolion ac aelodau o'r teulu, a sicrhau bod y rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar y gofrestr mwyach yn cael eu dileu oddi arni
- Mae angen i'r holl staff gael hyfforddiant diogelu cyfredol sy'n briodol i'w rôl
- Cynnal archwiliad blynyddol o grynodedau er mwyn sicrhau eu bod o safon uchel a bod y codau yn gywir ac yn berthnasol i gefnogi'r staff clinigol wrth drin cleifion sydd wedi cofrestru'n ddiweddar.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gofal clinigol o ansawdd uchel a chadw cofnodion
- Nodiadau meddygol cleifion o ansawdd da.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd ansawdd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth yn foddhaol, gyda llinellau adrodd clir. Roedd gan y practis dîm rheoli ac uwch-dîm ymroddedig ac ymrwymedig. Roedd y staff hefyd yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y polisiau a'r gweithdrefnau a welsom wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Roedd y rhain ar gael i bob aelod o'r staff drwy yriant a rennir y practis neu ar ffurf copi caled o swyddfa rheolwr y practis. Fodd bynnag, mae angen cwblhau gwaith i roi polisiau allweddol a oedd ar goll, ar waith.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal a chaiff cofnodion a/neu'r camau gweithredu eu cofnodi a'u rhannu â'r staff o bob rhan o'r practis.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn cydymffurfio â'r hyfforddiant gorfodol, ac roedd cynlluniau ar waith ar gyfer y rhai nad oeddent yn cydymffurfio â'r hyfforddiant hwnnw. Roedd arfarniadau staff blynyddol hefyd wedi'u cwblhau, ac roedd unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol yn cael eu nodi er mwyn cefnogi eu datblygiad proffesiynol.

Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion. Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos yn yr ardal aros yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau ac roedd blwch awgrymiadau ar gael hefyd.

Rhoddyd sicrwydd i ni y byddai'r staff yn cael eu cefnogi i fynegi pryder pe bai angen a chawsom gopi o bolisi chwythu'r chwiban y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- System fonitro ar gyfer hyfforddiant gorfodol
- Ffurfioli cyfarfodydd staff ac ystyried ychwanegu log gweithredu i gofnodion cyfarfodydd
- Sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- System rheoli ansawdd ac adolygu ar gyfer polisiau a gweithdrefnau
- Roedd y staff nyrsio yn teimlo bod y meddygon teulu yn eu cefnogi'n dda iawn a nododd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fwy na pharod i uwchgyfeirio unrhyw broblemau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn cleifion am y gofal ym Meddygfa Canna Surgery cyn yr arolygiad a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024. Cafwyd cyfanswm o 28 o ymatebion. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol, gyda phob un o'r ymatebwyr yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Mae fy nau blentyn ifanc wedi cael gofal o'r radd flaenaf bob amser. Mae hyn yn cynnwys triniaeth gan feddygon ac apwyntiadau rheolaidd gyda'r nyrsys. Fel rhiant, rwyf bob amser wedi gallu cael cyngor meddygol llawn yn gyflym ar gyfer y ddau blentyn, ac mae'r gweithwyr meddygol proffesiynol wedi dangos agwedd sensitif tuag at fy iechyd a'm llesiant i fel mam. Roedd popeth yn ardderchog. Diolch i'r arwyr ym Meddygfa Canna!”

“Rwyf bob amser wedi bod yn fodlon ar lefel y gofal rwyf wedi'i chael gan y bydwagedd, y nyrsys a'r meddygon.”

“Mae meddygfa Canna yn ffantastig, ac rydym yn ffodus iawn o'u cael. Mae fy mhlant yn galw'r [Meddyg] y 'meddyg gorau yn y byd.' Hyd yn oed pan fo'r meddygon yn brysur iawn, rydyn ni bob amser yn teimlo eu bod nhw'n gofalu amdanon ni a'n bod yn cael y gofal gorau posibl. Mae siarad Cymraeg â fy mhlant sy'n siarad Cymraeg yn teimlo fel enghraifft o'r gofal sy'n canolbwyntio ar y claf rydym yn ei gael bob amser.”

“Mae'r meddygon, y nyrsys a staff y dderbynfa bob amser yn fy nhrin â pharch a gofal. Mae'r meddyg yn cymryd amser i wrando ac i esbonio unrhyw ganlyniadau neu anghenion hefyd. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog lechyd yn y gorffennol i longyfarch y practis.”

“Mae'r gwasanaeth yn dda iawn yn y practis hwn. Mae pawb yn garedig ac yn dangos parch, ac mae gan bawb amser i wrando arnoch chi. Mae'r meddyg yn rhoi esboniad mewn ffordd ddealladwy. Caiff gofal arbennig ei roi.”

“Gwasanaeth ardderchog gan bob aelod o'r staff.”

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth eang o wybodaeth hybu iechyd ysgrifenedig ar gael i gleifion yn y practis. Roedd y wybodaeth yn cael ei harddangos yn ardaloedd aros y cleifion ac ar y sgriniau arddangos ac yn cael ei hyrwyddo ar wefan y practis, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, gwasanaethau sgrinio, rheoli pwysau, brechlyn ffliw a dementia.

Gwnaeth ymatebion i'n holiadur i gleifion gadarnhau bod deunydd hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion yn cael eu harddangos yn y practis. Yn ogystal, dywedodd yr unigolion a ymatebodd i'n holiadur staff fod y practis yn cynnig cyngor a gwybodaeth hybu iechyd am gyflyrau cronig i'r cleifion.

Roedd y practis yn cynnig gwasanaeth brechu rhag ffliw y gaeaf a oedd wedi dechrau ym mis Medi 2024. Roedd y gwasanaeth yn cael ei hyrwyddo o fewn y practis, ar y cyfryngau cymdeithasol, ar wefan y practis a thrwy negeseuon testun. Ar gyfer y cleifion hynny heb fynediad at ddyfeisiau digidol, roedd yr ymgyrch yn cael ei hyrwyddo yn y practis a byddai'r staff yn gallu ffonio'r cleifion cymwys hefyd.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol eu taith. Roedd yr ystafelloedd clinigol yn cynnig lefel briodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd y drysau yn cael eu cadw ar gau yn ystod ymgyngoriadau. Roedd llenni preifatrwydd hefyd ar gael.

Roedd pawb a ymatebodd i'n holiadur yn cytuno:

- Bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch
- Bod mesurau ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Bod y staff wedi gwrandao arnynt
- Roeddent yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn modd proffesiynol a chyfeillgar. Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, roedd rhai galwadau ffôn yn cael eu hateb yn y swyddfa weinyddol, i ffwrdd o ddesg y dderbynfa. Roedd gwydr i wahanu desg y dderbynfa, a oedd yn cynnig rhyw lefel o breifatrwydd o'r ardal aros.

Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Roedd gwybodaeth am hebryngwyr yn cael ei harddangos ar ddesg y dderbynfa flaen, ond nid oedd hysbysiad ym mhob un o'r ystafelloedd trin yn nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael.

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion am yr opsiwn o gael hebryngwr ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol

Amserol

Gofal amserol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau y gallai cleifion gael gofal mewn ffordd amserol, a hynny gan y person mwyaf priodol.

Disgrifiodd y staff y trefniadau i gleifion gael gafael ar wasanaethau. Gellir trefnu apwyntiadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Roedd apwyntiadau yn cynnwys apwyntiadau brys neu apwyntiadau y gellid eu trefnu'n rheolaidd.

Mae'r practis wedi rhoi system 'ffonio nôl' ar waith, sy'n galluogi cleifion i ofyn i'r practis eu ffonio nôl pan fyddant ar flaen y ciw, yn hytrach nag aros.

Mae'r meddyg ar alwad yn brysbennu cleifion dros y ffôn, a chaiff apwyntiadau ar yr un diwrnod eu cynnig ar gyfer pob achos brys os oes angen. Dywedwyd wrthym y byddai plant yn cael eu gweld wyneb yn wyneb ar yr un diwrnod. Hefyd, gall cleifion drefnu apwyntiadau rheolaidd 72 awr o flaen llaw, a all gael eu cynnal wyneb yn wyneb neu dros apwyntiad ffôn.

Mae rhestr 'gorlif' hefyd ar waith yn y practis ar gyfer cleifion a all gael eu brysbennu pan fo pob apwyntiad 'ar y dydd' wedi'i lenwi. Mae meddyg ar ddyletswydd ar gael bob prynhawn i ddelio ag ymholiadau brys.

Roedd prosesau ar waith i gefnogi cleifion a oedd yn wynebu argyfwng iechyd meddwl. Lle y bo'n briodol, caiff cleifion eu hatgyfeirio at y tîm argyfwng iechyd meddwl/ tîm iechyd meddwl plant a'r glasoed i gael cymorth argyfwng brys. Roedd cymorth a phrosesau cyfeirio amgen hefyd ar gael i gleifion yr oedd angen cymorth iechyd meddwl arnynt.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod y staff yn cyfathrebu'n glir ac mewn iaith sy'n briodol i anghenion y cleifion. Roeddent hefyd yn darparu gwybodaeth mewn ffordd a oedd yn galluogi'r

cleifion i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu gofal. Roedd gan y feddygfa ddolen sain i gefnogi'r rhai ag anawsterau clywed.

Fel arfer, caiff cleifion wybod am y gwasanaethau a gynigir drwy'r wefan, y cyfryngau cymdeithasol a thrwy wybodaeth a diweddariadau a gaiff eu rhannu drwy wasanaeth negeseuon testun. Os oedd yn hysbys nad oedd gan gleifion ffôn symudol, byddai llythyrau yn cael eu hanfon at unigolion a byddai'r practis yn cyfathrebu â nhw drwy alwadau ffôn.

Roedd prosesau ar waith i oruchwyllo post a oedd yn cyrraedd y practis ac yn berthnasol i gleifion penodol yn feddygol. Caiff gwybodaeth ei hadolygu'n briodol a'i chofnodi'n brydlon yng nghrynodeb meddygol y claf. Disgrifiodd y staff drefniadau ar gyfer sganio'r post a phennu codau ar ei gyfer, gan nodi camau gweithredu i'r clinigwyr a'u hanfon ymlaen at yr unigolion priodol. Gwnaethom adolygu polisi llif gwaith priodol a gwelsom fod tasgau yn cael eu dogfennu'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys camau gweithredu priodol mewn perthynas â chofnodi unrhyw ryngweithio a champau dilynol i staff y practis pe byddai claf wedi cysylltu â gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau.

Roedd meddygon teulu a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis, ond nid oedd hysbysiadau i'w gweld a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.

Hawliau a chydaddoldeb

Roedd y practis yn cynnig mynediad da i gleifion. Gwnaethom nodi bod yr ardaloedd i gleifion, gan gynnwys yr ystafelloedd trin a thoiled hygyrch, wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd mynediad i'r safle yn dda ar y cyfan, ac roedd yn cynnig mynediad hawdd i gleifion ag anawsterau symudedd a phobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod rhai cleifion yn ei chael hi'n anodd defnyddio prif ddrysau'r adeilad oherwydd eu lled.

Mae system seinydd ar waith yn y practis lle gall y cleifion alw am help i fynd i mewn i'r adeilad. Hefyd, mae cadair olwyn ar gael yn y practis y gall y cleifion ei defnyddio pe bai angen.

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth. Cytunodd pawb a atebodd yr

holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd y practis yn cymryd camau rhagweithiol i barchu hawliau cleifion trawsryweddol. Dywedwyd wrthym fod cleifion trawsryweddol yn cael eu trin mewn modd sensitif a chadarnhawyd y byddai eu henwau a'u rhagenwau dewisol yn cael eu defnyddio bob amser.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis yn lân ac yn daclus, heb unrhyw annibendod ac roedd mewn cyflwr da.

Roedd prosesau ar waith i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r practis.

Gwnaethom edrych ar y cynllun parhad busnes. Roedd hwn yn ymdrin yn ddigonol â'r risg i'r bartneriaeth fusnes, risg pandemig a chynlluniau wrth gefn digon manwl ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor. Rydym yn argymhell y dylai'r cynllun parhad busnes fod ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a manylion cyswllt pe bai argyfwng sy'n effeithio ar y busnes.

Rhaid rhannu'r cynllun parhad busnes â'r holl staff a sicrhau bod copi caled ar gael i gefnogi'r staff mewn sefyllfaoedd brys sy'n effeithio ar y busnes.

Dangosodd y practis drefniadau cydweithio fel clwstwr er mwyn sicrhau y gallai gofal cleifion barhau pe bai sefyllfa eithafol yn codi.

Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Dirprwy reolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn hysbysiadau diogelwch cleifion, a gwelsom sut roeddent yn cyrraedd ac yn cael eu rhannu â'r staff a'u cyfleu mewn cyfarfodydd. Roedd hysbysiadau diogelwch cleifion hefyd yn cael eu hargraffu a'u rhoi mewn ffolder. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylai'r holl hysbysiadau gael eu storio ar yriant electronig a rennir y practis hefyd er mwyn i'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.

Dylai'r practis storio hysbysiadau diogelwch cleifion ar yriant electronig a rennir y practis er mwyn i bob aelod o'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac roedd y staff yn gallu dod o hyd iddynt mewn argyfwng.

Gwnaethom drafod y camau a gymerir pan ofynnir am ymweliadau â chartrefi cleifion a gwnaethom nodi bod y staff yn brysbennu'r holl ymweliadau cyn eu cynnal.

Gwelsom eitemau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio, a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd hyn yn cynnwys chwistrellau a nodwyddau. Rhaid i'r eitemau hyn gael eu symud i'w hatal rhag cael eu defnyddio wrth roi gofal i gleifion.

Rhaid i'r practis adolygu cynnwys yr ystafell stoc a symud pob darn o gyfarpar/cyfarpar diogelu personol y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio oddi yno.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar y cyfan, roedd y trefniadau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn dderbyniol, ond mae angen gwella rhai o'r trefniadau er mwyn sicrhau bod y practis bob amser yn cyrraedd y safonau gofynnol o ran atal a rheoli heintiau er mwyn cynnal diogelwch y staff a'r cleifion.

Nid oedd unrhyw bolisi atal a rheoli heintiau penodol ar waith a dywedwyd wrthym fod y maes hwn wedi'i gynnwys yn y polisi nodwyddau. Hefyd, mae gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir, a gafodd ei wirio a'i gadarnhau gan aelodau o'r staff. Gwnaethom awgrymu y dylid rhoi polisi atal a rheoli heintiau lleol ar waith sy'n cynnwys yr arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir.

Rhaid i'r practis roi polisi atal a rheoli heintiau penodol i'r practis ar waith a sicrhau y caiff yr arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir ei gynnwys ynddo.

Roedd y matrices hyfforddiant yn cynnwys hyfforddiant atal a rheoli heintiau fel cwrs gorfodol i'r staff. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a oedd yn berthnasol i'w rôl.

Drwy adolygu'r ffeiliau a'r ddogfennaeth adnoddau dynol, gwelsom fod system briodol ar waith i sicrhau bod gan bob aelod o'r staff imiwnedd a/neu ei fod wedi'i amddiffyn rhag achosion o ledaenu hepatitis B.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ond dim ond adran fer oedd wedi'i chynnwys yn y polisi lechyd a Diogelwch i gefnogi hyn. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi polisi ar waith sy'n benodol i'r practis. Gwnaethom nodi bod y gwastraff clinigol yn ddiogel ac nad oedd yn bosibl i'r cyhoedd ei gyrraedd. Dywedodd y staff wrthym na chafwyd unrhyw broblemau yn hyn o beth hyd yma, ond nid oedd asesiad risg ffurfiol ar waith i gadarnhau a oedd diogelwch y casgliad gwastraff clinigol yn foddhaol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi ar gyfer rheoli gwastraff yn cael ei roi ar waith a'i adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd a'i fod yn benodol i'r practis.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff diogelwch gwastraff clinigol ei gynnwys mewn asesiad risg ffurfiol.

Er y dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid rhoi rhaglen archwilio atal a rheoli heintiau mwy manwl ar waith i fonitro yn erbyn y safonau.

Rhaid i'r practis ddiweddarau ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydabyddedig.

Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio, ond dywedwyd wrthym fod drws ar ochr y fferyllfa o'r adeilad ar gael a allai gael ei ddefnyddio er mwyn lleihau cysylltiad â chleifion eraill. Dywedwyd wrthym hefyd fod ystafell fach wedi'i defnyddio yn ystod COVID-19 fel ystafell ynysu.

Dylai'r practis ffurfioli trefniadau i wahanu pobl yr amheuir bod ganddynt heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.

Roedd hysbysiadau i'w gweld yn yr ystafelloedd trin a oedd yn cynnwys gwybodaeth am waredu offer miniog a gwastraff. Fodd bynnag, gwelsom flychau offer miniog mewn ystafelloedd trin clinigol nad oeddent wedi cael eu cau yn iawn nac wedi'u rhoi yn y modd diogel, ac a oedd felly yn peri risg o gael eu gollwng neu o achosi anaf a achosir gan nodwydd. Roedd polisi anafiadau a achosir gan nodwydd a feirws a gludir yn y gwaed ar waith, ond nid oedd y siart lif nodwyddau yng ngolwg y staff ac roedd yn cael ei harddangos yr ochr draw i ddrws cwpwrdd. Er mwyn cefnogi'r staff ymhellach, gwnaethom argymhell y dylai'r practis arddangos poster am anafiadau a achosir gan nodwyddau yn glir yn yr ardaloedd trin.

Dylai'r practis ystyried arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwyddau yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflogi isgontractwyr newydd yn ddiweddar i gwblhau'r gwaith glanhau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw amserlenni glanhau wythnosol ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ardaloedd i'r cyhoedd, yr ystafelloedd trin/ystafelloedd ymgynghori a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus.

Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau wythnosol yn cael eu rhoi ar waith.

Roedd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn teimlo bod hylif diheintio dwylo ar gael a bod y staff gofal iechyd yn golchi eu dwylo cyn ac ar ôl cael eu trin. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'lân'.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi mewn ffordd ddiogel. Roedd y broses i gleifion ofyn am feddyginiaeth reolaidd yn glir.

Roedd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau'n cael eu cyfeirio'n syth at y fferyllfa gyfagos. Caiff cofnodlyfr ei gynnal o'r holl bresgripsiynau a gaiff eu rheoli yn y ffordd hon. Gellir casglu presgripsiynau ger desg y dderbynfa hefyd, lle mae'r staff yn gwirio enw, cyfeiriad a dyddiad geni yr unigolyn ac yn gwneud cofnod o hyn.

Roedd y staff wedi ymgymryd â hyfforddiant drwy gwrs rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo. Dywedwyd wrthym fod proses ar waith i gael gwared ar badiau presgripsiwn yn ddiogel pan oedd meddyg teulu yn gadael y practis.

Roedd staff y practis a oedd wedi cwblhau hyfforddiant ar ragnodi meddyginiaeth reolaidd yn cael eu goruchwyllo gan un o'r uwch-aelodau o staff. Roedd y meddygon teulu yn awdurdodi unrhyw gamau neu achosion o ail-awdurdodi.

Roedd proses cadwyn oer ar waith ar gyfer meddyginiaethau neu frechlynnau yr oedd angen eu cadw yn yr oergell. Roedd oergelloedd clinigol dynodedig ar gyfer rhai eitemau, megis brechlynnau. Roedd gwiriadau dyddiol yn cael eu cwblhau ac roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau hyn. Cadarnhaodd sgysiau â'r staff eu bod yn gwybod beth oedd y tymheredd uchaf a'r tymheredd isaf a beth i'w wneud pe bai'r gadwyn oer yn torri. Dywedwyd wrthym fod system gylchdroi ar waith ar gyfer brechlynnau, lle y caiff meddyginiaethau newydd eu rhoi yng nghefn yr oergell a'r stoc hŷn ei rhoi ym mlaen yr oergell. Mae'r practis hefyd yn gwahanu'r stoc rhwng pedwar oergell.

Mae'r meddygon teulu yn cwblhau adolygiadau ar feddyginiaethau a dywedwyd wrthym fod hyn yn rhan o'r broses ail-awdurdodi. Mae polisi rhagnodi meddyginiaethau reolaidd ar waith yn y practis ond nid oes polisi rhagnodi cyffredinol ar waith ar hyn o bryd.

Dylai'r practis sicrhau bod polisi rhagnodi cyffredinol ar waith.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu cadw yn y practis.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd y practis wedi penodi arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ar gael i'r staff yn y practis a oedd yn gyfredol, wedi'u dilysu ac yn cynnwys manylion cyswllt arweinyddion dynodedig. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas. Fodd bynnag, nid oedd yn hawdd i bob aelod perthnasol o'r staff nodi plant oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant.

Rhaid i'r practis sicrhau bod proses yn cael ei rhoi ar waith i wneud yn siwr bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r plant sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant, a'r rhai sydd wedi'u dileu oddi ar y gofrestr a bod y wybodaeth hon yn cael ei nodi'n glir yng nghofnodion y plant.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Roedd prosesau ar waith yn y practis i gynnal a chadw cyfarpar yn ddiogel. Gwelsom fod yr holl gyfarpar mewn cyflwr da, yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a bod gwiriadau trydanol priodol wedi cael eu cynnal. Roedd contractau ar waith ar gyfer cynnal a chadw a chalibradu cyfarpar fel y bo'n briodol, ac ar gyfer gwneud unrhyw waith atgyweirio brys neu ddarparu cyfarpar newydd.

Roedd cyfarpar adfywio a chyffuriau brys priodol ar gael i reoli argyfwng yn ymwneud â chlaf, megis ataliad y galon. Gwelsom dystiolaeth bod y broses o wirio cyfarpar a chyffuriau brys yn cael ei chofnodi'n briodol ac yn cael ei chynnal bob wythnos. Roedd y rhain yn cyrraedd y safonau cyfarpar gofal sylfaenol a amlinellir yng nghanllawiau Cyngor Adfywio'r DU.

Gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol ar gyfer argyfyngau meddygol, ac roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol priodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd prosesau ar waith i sicrhau gofal effeithiol a diogel ac roedd hyn yn cynnwys y broses ar gyfer cael triniaeth neu ofal ar draws y clwstwr meddygon teulu a'r

gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach. Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch aciwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd system briodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, cyfarfodydd anffurfiol oedd y rhain yn aml, ac nid oedd cofnodion na chymau gweithredu yn cael eu cofnodi.

Dylid llunio cofnodion o gyfarfodydd y staff a dogfennu'r camau gweithredu a dylai'r rhain gael eu rhannu â phob aelod o'r staff

Dywedwyd wrthym fod unrhyw newidiadau neu ganllawiau newydd yn cael eu rhannu â'r staff dros e-bost a'u trafod â nhw fel y bo'n briodol, a bod y wybodaeth yn cael ei storio ar y gyriant a rennir lle y gall pob aelod o'r staff ei gweld.

Roedd prosesau priodol ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau, gan gynnwys trafodaethau mewn cyfarfodydd clinigol mewnol ac roedd cofnodlyfrau'n cael eu cadw.

Roedd y broses o atgyfeirio cleifion yn cael ei rheoli i safon dda, gan gynnwys atgyfeiriadau brys. Roedd cofnodion y cleifion yn cynnwys canlyniadau ymchwiliadau/profion ac roedd naratif ynddynt o ran pam gofynnwyd am yr ymchwiliadau.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion electronig y cleifion, a oedd yn cael eu storio'n ddiogel ac wedi'u diogelu rhag mynediad heb awdurdod drwy gyfrinair. Ar y cyfan, roedd y cofnodion yn glir, wedi'u hysgrifennu i safon dda ac yn cynnwys gwybodaeth briodol. Roeddent wedi'u hysgrifennu ar y pryd ac roedd y wybodaeth yn hawdd i glinigwyr eraill a oedd yn edrych ar y cofnodion ei deall.

Gwelsom fod defnydd da a chyson yn cael ei wneud o godau darllen clinigol, sy'n ei gwneud hi'n haws dadansoddi ac archwilio. Roedd cofnodion y cleifion lle roedd clefydau cronig yn cael eu cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o gyflyrau, gan gynnwys holl broblemau'r gorffennol a phroblemau parhaus, yn ogystal â'r feddyginiaeth oedd yn cael ei chymryd. Fodd bynnag, nid oedd cyfraddau adolygu meddyginiaeth yn cael eu dogfennu'n effeithiol.

Rhaid i'r practis sicrhau bod codau adolygu meddyginiaeth a'r cysylltiad rhwng meddyginiaethau a chyflyrau clinigol yn cael eu gwella, a bod adolygiadau blynyddol o feddyginiaeth yn cael eu cynnal.

Dywedwyd wrthym fod staff anghlinigol yn cael eu defnyddio i grynhoi gwybodaeth am gleifion, a bod hyfforddiant wrth weithio yn cael ei gynnig i aelodau newydd o staff sy'n gyfrifol am y broses grynhoi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw broses hyfforddi ffurfiol ar waith na dogfennau i gefnogi'r staff gyda'r codau, ac nid oes archwiliad ffurfiol o gywirdeb y broses grynhoi wedi'i gynnal.

Dylai'r practis roi hyfforddiant ffurfiol ar godau a'r broses grynhoi ar waith, a dylid cwblhau archwiliadau blynyddol ar gywirdeb yr hyn y rhoddir codau arno ac a gaiff ei grynhoi.

Roedd y gofal parhaus yn dda, gyda'r cleifion a chofnodion y cleifion yn cael eu goruchwylio'n agos gan bob meddyg teulu. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos ymgynoriadau â chleifion o ansawdd da.

Wrth ystyried dewis iaith y cleifion, Cymraeg oedd yr unig iaith y gellid ei chofnodi. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod y cleifion yn cael eu cefnogi yn eu dewis iaith.

Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith yr holl gleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod gwasanaethau'n cael eu trefnu mewn modd effeithlon a'u bod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, er mwyn sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso yn ystod eu taith gofal iechyd.

Gall y practis atgyfeirio cleifion at wasanaethau ffisiotherapi ac iechyd meddwl, ond nid oes gwasanaeth cwnsela ar gael drwy'r grŵp clwstwr ar hyn o bryd.

Dylai'r practis ymgysylltu â'r clwstwr i sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael i'r cleifion mewn modd amserol i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Mae'r gwasanaeth fferyllol yn y clwstwr yn cynnig cyngor a chymorth i'r cleifion ac yn ateb eu hymholiadau am feddyginiaeth.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Buom yn sgwrsio â'r staff drwy gydol yr arolygiad a chawsom adborth drwy holiadur staff. Roedd y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

“Meddygfa ardderchog i weithio ynddi. Cydweithwyr cefnogol a gofalgar o staff y dderbynfa i'r nyrsys a'r meddygon a'r staff gweinyddol a'r staff rheoli. Lle hyfryd i weithio ynddo.”

“Rwyf wrth fy modd â'r swydd hon a'm cydweithwyr. Hoffai pob un ohonom gael gwasanaeth yn y practis hwn. Rydym ni'n deulu gwaith gwych yma. Rydyn ni'n gweithio'n dda gyda'n gilydd ac yn cynnig meddygfa ddiogel, effeithlon a gaiff ei rheoli'n dda i'n cleifion. Yr amgylchedd gwaith gorau rydw i wedi gweithio ynddo”

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd prosesau ar waith i gefnogi trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol. Roedd y staff yn glir o ran eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd a phwysigrwydd gweithio o fewn eu maes ymarfer.

Cadarnhaodd yr arweinwyr fod polisi drws agored i'r staff rannu pryderon a syniadau ar gyfer y practis.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal fel mater o drefn, ond nid oedd cofnodion yn cael eu llunio'n ffurfiol. Lle y bo'n briodol, dylai'r staff nyrsio a'r staff anghlinigol gael eu cynnwys yn y cyfarfodydd staff. Nodwyd y broses o lunio a rhannu cofnodion cyfarfodydd ac aed i'r afael â'r mater yn gynharach yn yr adroddiad.

Gwnaethom edrych ar gyfres gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau. Roeddent yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd ac roeddent ar gael i bob aelod o'r staff drwy'r gyriant a rennir. Roedd system rheoli dogfennau effeithiol ar waith.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Cawsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, ac roedd cynlluniau ar waith i'r staff ddiweddarau eu hyfforddiant lle y bo'n gymwys.

Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, ac roedd unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol yn cael eu nodi er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol. Er bod system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y rhan fwyaf o aelodau unigol o staff â hyfforddiant, nid oedd hyn yn cael ei goladu fel rhan o fatrics hyfforddiant ar gyfer y meddygon teulu er mwyn nodi'n hawdd pwy oedd wedi cwblhau hyfforddiant (neu ddim).

Dylai'r practis gynnwys cofnodion hyfforddiant y meddygon teulu a phob aelod arall o staff mewn matrices hyfforddiant i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n briodol i'w rôl. Fodd bynnag, wrth edrych ar bolisi recriwtio'r practis, nid oedd unrhyw gyfeiriad at wiriadau recriwtio diogel, fel nifer y geirdaon, tystiolaeth o imiwnedd i hepatitis B a chymwysterau proffesiynol. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad o gofnodion tri aelod o staff nad oedd unrhyw wybodaeth ar goll o'u ffeiliau.

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyflogaeth yn cael ei chasglu a'i chadw yn ffeil personol pob aelod o'r staff.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau, yn ogystal â blwch sylwadau, adborth ac awgrymiadau yn yr ardal aros i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.

Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.

Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwyno ar waith a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno a dogfennau'r weithdrefn. Caiff cwynion/pryderon eu monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff. Roedd system olrhain cwynion effeithiol ar waith i fonitro, adolygu

a datrys cwynion ac adborth. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd mewn cyfarfodydd ac yn ystod arfarniadau.

Dylai'r practis ystyried sut y caiff y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed yn sgil cwynion eu rhannu â phob aelod o'r staff.

Roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i leisio barn ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt, ac roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith i gefnogi hyn. Yn ogystal, roedd y staff yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw awgrymiadau a allai fod ganddynt a gallent rannu'r rhain â'u rheolwr i'w hystyried.

Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith, ond dengys y cofnodion a welsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar hyn. Roedd yr hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024. Roedd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall eu rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cefnogaeth i gwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR). Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Roedd y practis yn deall ei gyfrifoldeb wrth brosesu gwybodaeth a dangosodd fod data yn cael eu rheoli mewn ffordd ddiogel. Roedd polisi llywodraethu gwybodaeth cyfredol ar waith i gefnogi hyn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn dysgu gwersi o adolygiadau mewnol ac allanol, gan gynnwys digwyddiadau a chwynion. Dywedwyd wrthym fod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r practis cyfan mewn cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod cofnodion na chamau gweithredu ar waith.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o glwstr meddygon teulu. Roedd staff meddygol yn mynychu cyfarfodydd y clwstr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstr cyfan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Canna Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 10 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Canna Surgery

Dyddiad yr arolygiad: 10 Rhagfyr 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Roedd y practis yn cynnig hebryngwyr o dan yr holl amgylchiadau priodol, ac roedd polisi hebryngwyr ar waith. Roedd gwybodaeth am hebryngwyr yn cael ei harddangos ar ddesg y dderbynfa flaen, ond nid oedd hysbysiad ym mhob un o'r ystafelloedd trin yn nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael.	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ar gael i gleifion am yr opsiwn o gael hebryngwr ym mhob un o'r ystafelloedd trin clinigol	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Sicrhau bod hysbysiadau o hebryngwyr yn cael eu harddangos ym mhob ystafell glinigol (eisoes wedi'u gosod yn dilyn yr ymweliad arolygu).	Mr C Williams	Eisoes wedi'i gwblhau

2.	Roedd meddygon teulu a oedd yn siarad Cymraeg yn y practis, ond nid oedd hysbysiadau i'w gweld a oedd yn rhoi gwybod i'r cleifion fod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.	Dylai'r practis sicrhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo i gleifion.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Mae hysbysiadau yn rhoi gwybod am argaeledd staff sy'n siarad Cymraeg wedi'u rhoi yn y Dderbynfa. (Cwblhawyd ar ddiwrnod yr arolygiad)	Mr C Williams	Eisoes wedi'i gwblhau
3.	Gwnaethom edrych ar y cynllun parhad busnes. Roedd hwn yn ymdrin yn ddigonol â'r risg i'r bartneriaeth fusnes, risg pandemig a chynlluniau wrth gefn digon manwl ar gyfer absenoldeb salwch hirdymor. Rydym yn argymhell y dylai'r cynllun parhad busnes fod ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a manylion cyswllt pe	Rhaid rhannu'r cynllun parhad busnes â'r holl staff a sicrhau bod copi caled ar gael i gefnogi'r staff mewn sefyllfaoedd brys sy'n effeithio ar y busnes.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Sicrhau bod y cynllun parhad busnes ar gael ar yriant a rennir y staff. Mae copi caled ar gael i'r holl staff yn y Dderbynfa. Mae copi caled ar gael yn y Sêff	Mr C Williams	Erbyn 31.03.25

	bai argyfwng sy'n effeithio ar y busnes.					
4.	Roedd y broses a oedd ar waith ar gyfer rheoli rhybuddion diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys yn gadarn. Dirprwy reolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn hysbysiadau diogelwch cleifion, a gwelsom sut roeddent yn cyrraedd ac yn cael eu rhannu â'r staff a'u cyfleu mewn cyfarfodydd. Roedd hysbysiadau diogelwch cleifion hefyd yn cael eu hargraffu a'u rhoi mewn ffolder. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu y dylai'r holl hysbysiadau gael eu storio ar yriant electronig a rennir y practis hefyd er mwyn	Dylai'r practis storio hysbysiadau diogelwch cleifion ar yriant electronig a rennir y practis er mwyn i bob aelod o'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Sicrhau y caiff yr holl hysbysiadau eu storio ar y gyriant a rennir. Mae copïau papur ar gael yn y Dderbynfa i'w defnyddio pe bai problemau gyda'r cyfrifiadur.	Mr C Williams	Erbyn 31.03.25

	i'r staff gael gafael arnynt yn hawdd.					
5.	Gwelsom eitemau yr oedd eu dyddiadau defnyddio wedi mynd heibio, a oedd yn peri risg i ddiogelwch cleifion. Roedd hyn yn cynnwys chwistrellau a nodwyddau. Rhaid i'r eitemau hyn gael eu symud i'w hatal rhag cael eu defnyddio wrth roi gofal i gleifion.	Rhaid i'r practis adolygu cynnwys yr ystafell stoc a symud pob darn o gyfarpar/cyfarpar diogelu personol y mae ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio oddi yno.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Mae proses wedi'i rhoi ar waith i wirio'r holl stoc ym mhob ystafell glinigol wrth wirio'r cyffuriau brys a'r cyfarpar adfywio. (Wedi'i ychwanegu at y rhestr gwirio ar ddiwrnod yr arolygiad)	Mrs A Rogers	Eisoes wedi'i gwblhau
6.	Nid oedd unrhyw bolisi atal a rheoli heintiau penodol ar waith a dywedwyd wrthym fod y maes hwn wedi'i gynnwys yn y polisi nodwyddau. Hefyd, mae gan y practis arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir, a gafodd ei wirio a'i gadarnhau	Rhaid i'r practis roi polisi atal a rheoli heintiau penodol i'r practis ar waith a sicrhau y caiff yr arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir ei gynnwys ynddo.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Rydym wedi gofyn am y polisi atal a rheoli heintiau gan un o Nyrsys Arweiniol y bwrdd iechyd lleol. Unwaith y bydd y polisi ar gael, byddwn yn ei roi ar waith.	Mrs A Rogers	Erbyn 31.03.25

	gan aelodau o'r staff. Gwnaethom awgrymu y dylid rhoi polisi atal a rheoli heintiau lleol ar waith sy'n cynnwys yr arweinydd atal a rheoli heintiau a enwir.					
7.	Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli a gwaredu pob math o wastraff, ond dim ond adran fer oedd wedi'i chynnwys yn y polisi lechyd a Diogelwch i gefnogi hyn. Gwnaethom argymhell y dylid rhoi polisi ar waith sy'n benodol i'r practis.	Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi ar gyfer rheoli gwastraff yn cael ei roi ar waith a'i adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd a'i fod yn benodol i'r practis.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Caiff Polisi Rheoli Gwastraff ei roi ar waith a bydd archwiliadau'n cael eu cynnal bob tri mis yn dilyn yr ymweliad arolygu. Byddwn yn rhoi polisi ar wahân ar waith.	Mr C Williams	Erbyn 31.03.25
8.	Gwnaethom nodi bod y gwastraff clinigol yn ddiogel ac nad oedd yn bosibl i'r cyhoedd ei gyrraedd. Dywedodd y staff wrthym na chafwyd unrhyw	Rhaid i'r practis sicrhau y caiff diogelwch gwastraff clinigol ei gynnwys mewn asesiad risg ffurfiol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Cynnal asesiad risg.	Mr C Williams	Erbyn 24.02.25

	broblemau yn hyn o beth hyd yma, ond nid oedd asesiad risg ffurfiol ar waith i gadarnhau a oedd diogelwch y casgliad gwastraff clinigol yn foddhaol.				
9.	Er y dywedwyd wrthym fod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal, gwnaethom argymhell y dylid rhoi rhaglen archwilio atal a rheoli heintiau mwy manwl ar waith i fonitro yn erbyn y safonau.	Rhaid i'r practis ddiweddarau ei archwiliad atal a rheoli heintiau i sicrhau ei fod yn gynhwysfawr ac yn gyson â'r safonau atal a rheoli heintiau cyfredol a chydabyddedig.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Caiff yr archwiliad ei gynnal ar ôl i'r polisi atal a rheoli heintiau gael ei ddiweddarau. (Yn unol â phwynt rhif 6 uchod)	Mrs A Rogers Erbyn 31.03.25
10.	Nid oedd unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i wahanu pobl â heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio, ond	Dylai'r practis ffurfioli trefniadau i wahanu pobl yr amheuir bod ganddynt heintiau trosglwyddadwy er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel	Rhoi polisi ar waith a'i rannu â'r staff gan ychwanegu copi ohono at y gyriant a rennir.	Mr C Williams Erbyn 31.03.25

	<p>dywedwyd wrthym fod drws ar ochr y fferyllfa o'r adeilad ar gael a allai gael ei ddefnyddio er mwyn lleihau cysylltiad â chleifion eraill.</p> <p>Dywedwyd wrthym hefyd fod ystafell fach wedi'i defnyddio yn ystod COVID-19 fel ystafell ynysu.</p>					
11.	<p>Roedd hysbysiadau i'w gweld yn yr ystafelloedd trin a oedd yn cynnwys gwybodaeth am waredu offer miniog a gwastraff. Fodd bynnag, gwelsom flychau offer miniog mewn ystafelloedd trin clinigol nad oeddent wedi cael eu cau yn iawn nac wedi'u rhoi yn y modd diogel, ac a oedd felly</p>	<p>Dylai'r practis ystyried arddangos poster am reoli anafiadau a achosir gan nodwyddau yn yr ystafelloedd trin er mwyn helpu'r staff yn dilyn unrhyw anafiadau a achosir gan offer miniog.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel</p>	<p>Boddwn yn gosod poster ym mhob ystafell glinigol.</p>	<p>Mrs A Rogers</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

	<p>yn peri risg o gael eu gollwng neu o achosi anaf a achosir gan nodwydd. Roedd polisi anafiadau a achosir gan nodwydd a feirws a gludir yn y gwaed ar waith, ond nid oedd y siart lif nodwyddau yng ngolwg y staff ac roedd yn cael ei harddangos yr ochr draw i ddrws cwpwrdd. Er mwyn cefnogi'r staff ymhellach, gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos poster am anafiadau a achosir gan nodwyddau yn glir yn yr ardaloedd trin.</p>				
12.	<p>Dywedwyd wrthym fod y practis wedi cyflogi isgontractwyr newydd yn ddiweddar i gwblhau'r gwaith</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod amserlenni glanhau wythnosol yn cael eu rhoi ar waith.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel</p>	<p>Rydym wedi rhoi gwybod i'r contractwyr newydd y dylent ddarparu amserlenni glanhau wythnosol ac</p>	<p>Mr C Williams Erbyn 31.03.25</p>

	<p>glanhau. Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oedd unrhyw amserlenni glanhau wythnosol ar gael. Fodd bynnag, gwelsom fod yr ardaloedd i'r cyhoedd, yr ystafelloedd trin/ystafelloedd ymgynghori a'r dderbynfa yn lân ac yn daclus.</p>			<p>adroddiadau archwilio/hapwiriadau misol er mwyn i Reolwr y Practis eu cynnwys yn y cofnodlyfr glanhau.</p>		
13.	<p>Mae'r meddygon teulu yn cwblhau adolygiadau ar feddyginiaethau a dywedwyd wrthym fod hyn yn rhan o'r broses ail-awdurdodi. Mae polisi rhagnodi meddyginiaethau rheolaidd ar waith yn y practis ond nid oes polisi rhagnodi cyffredinol ar waith ar hyn o bryd.</p>	<p>Dylai'r practis sicrhau bod polisi rhagnodi cyffredinol ar waith.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel</p>	<p>Caiff polisi newydd ei roi ar waith.</p>	<p>Partneriaid</p>	<p>Erbyn 31.03.25</p>

14.	Roedd y practis wedi penodi arweinydd diogelu ar gyfer oedolion a phlant. Roedd polisiau a gweithdrefnau diogelu ar gael i'r staff yn y practis a oedd yn gyfredol, wedi'u dilysu ac yn cynnwys manylion cyswllt arweinyddion dynodedig. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar y lefel ofynnol.	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymgymryd â'r lefel ofynnol o hyfforddiant diogelu (plant ac oedolion) sy'n briodol i'w rôl, a dylid cadw cofnod er mwyn dangos hyn.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant i'r lefelau gofynnol ac wedi'u cynnwys yn y cofnodlyfr hyfforddiant gorfodol. Mae'r tystysgrifau wedi cael eu hychwanegu at ffeiliau'r staff.	Mr C Williams	Wedi'i gwblhau
15.	Wrth edrych ar gofnodion y cleifion, gwelsom enghreifftiau lle roedd pobl yn cael eu nodi'n benodol os oedd unrhyw bryderon diogelu yn eu cylch a dilynwyd llwybr diogelu addas. Fodd	Rhaid i'r practis sicrhau bod proses yn cael ei rhoi ar waith i wneud yn siŵr bod y staff perthnasol yn ymwybodol o'r plant sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant, a'r rhai sydd wedi'u dileu oddi ar y gofrestr a bod y	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu	Partneriaid i sicrhau y defnyddir y codau priodol ar gyfer y plant sydd wedi'u cynnwys ar y gofrestr.	Partneriaid	Parhaus

	bynnag, nid oedd yn hawdd i bob aelod perthnasol o'r staff nodi plant oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant.	wybodaeth hon yn cael ei nodi'n glir yng nghofnodion y plant.				
16.	Roedd system briodol ar waith i roi gwybod am ddiwyddiadau ac roedd unrhyw wersi i'w dysgu yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd tîm. Fodd bynnag, cyfarfodydd anffurfiol oedd y rhain yn aml, ac nid oedd cofnodion na chamau gweithredu yn cael eu cofnodi.	Dylid llunio cofnodion o gyfarfodydd y staff a dogfennu'r camau gweithredu a dylai'r rhain gael eu rhannu â phob aelod o'r staff	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu	Caiff cofnodion ffurfiol a digwyddiadau, canlyniadau a chofnodion pwyntiau dysgu eu cynnwys ar y gyriant a rennir yn y dyfodol.	Mr C Williams	Parhaus
17.	Gwelsom fod defnydd da a chyson yn cael ei wneud o godau darllen clinigol, sy'n ei gwneud hi'n haws dadansoddi ac archwilio. Roedd cofnodion y cleifion lle	Rhaid i'r practis sicrhau bod codau adolygu meddyginiaeth a'r cysylltiad rhwng meddyginiaethau a chyflyrau clinigol yn cael eu gwella, a bod adolygiadau blynyddol o	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel;	Pob clinigydd i sicrhau bod y feddyginiaeth yn cael ei chysylltu â'r broblem. Rheolwr y Practis i adolygu'r trefniadau ar gyfer aelodau newydd o staff er mwyn sicrhau bod	Partneriaid Mr C Williams	Parhaus

	<p>roedd clefydau cronig yn cael eu cofnodi yn cynnwys crynodeb llawn o gyflyrau, gan gynnwys holl broblemau'r gorffennol a phroblemau parhaus, yn ogystal â'r feddyginiaeth oedd yn cael ei chymryd. Fodd bynnag, nid oedd cyfraddau adolygu meddyginiaeth yn cael eu dogfennu'n effeithiol.</p>	<p>feddyginiaeth yn cael eu cynnal.</p>		<p>hyn yn digwydd yn awtomatig.</p>		
18.	<p>Dywedwyd wrthym fod staff anghlinigol yn cael eu defnyddio i grynhoi gwybodaeth am gleifion, a bod hyfforddiant wrth weithio yn cael ei gynnig i aelodau newydd o staff sy'n gyfrifol am y broses grynhoi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw</p>	<p>Dylai'r practis roi hyfforddiant ffurfiol ar godau a'r broses grynhoi ar waith, a dylid cwblhau archwiliadau blynyddol ar gywirdeb yr hyn y rhoddir codau arno ac a gaiff ei grynhoi.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Diogel; Y Gweithlu</p>	<p>Rhoi protocol archwilio crynodebau ar waith a phenodi clinigydd i gynnal archwiliadau rheolaidd o'r nodiadau crynhoi.</p>	<p>Mr C Williams</p>	<p>Erbyn 31.03.25</p>

	brores hyfforddi ffurfiol ar waith na dogfennau i gefnogi'r staff gyda'r codau, ac nid oes archwiliad ffurfiol o gywirdeb y broses grynhoi wedi'i gynnal.					
19.	Wrth ystyried dewis iaith y cleifion, Cymraeg oedd yr unig iaith y gellid ei chofnodi. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau bod y cleifion yn cael eu cefnogi yn eu dewis iaith.	Rhaid i'r practis sicrhau bod dewis iaith yr holl gleifion yn cael ei gofnodi ac yn hawdd ei weld yn eu cofnodion clinigol.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth	Caiff dewis iaith pob claf ei gofnodi ar y faner felen yng nghofnodion y cleifion.	Pob aelod o'r staff	Parhaus
20.	Gall y practis atgyfeirio cleifion at wasanaethau ffisiotherapi ac iechyd meddwl, ond nid oes gwasanaeth cwnsela ar gael drwy'r grŵp clwstwr ar hyn o bryd.	Dylai'r practis ymgysylltu â'r clwstwr i sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael i'r cleifion mewn modd amserol i gefnogi eu hiechyd meddwl a'u llesiant.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Amserol	Codwyd hyn ar lefel y clwstwr a nodwyd ei fod yn sgil diffyg cyllid. Caiff pob cais am gwnsela ei frysbennu gan IGC Rheolwr y Practis a'i ychwanegu at y rhestrau aros am	Dd/G	Dd/G

				<p>gwnsela yn unol â hynny. Mae'r practis wedi cyfrannu at y grŵp clwstwr ac wedi gweithio gydag ef gan fod cysylltwyr cymunedol a swyddogion llesiant yn cael eu darparu ar draws y clwstwr.</p>		
21.	<p>Gwelsom dystiolaeth fod arfarniadau blynyddol wedi cael eu cwblhau ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff, ac roedd unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol yn cael eu nodi er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol. Er bod system ar waith i fonitro cydymffurfiaeth y</p>	<p>Dylai'r practis gynnwys cofnodion hyfforddiant y meddygon teulu a phob aelod arall o staff mewn matrices hyfforddiant i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu</p>	<p>Caiff pob meddyg teulu ei ychwanegu at y matrices hyfforddiant.</p>	Mr C Williams	Parhaus

	<p>rhan fwyaf o aelodau unigol o staff â hyfforddiant, nid oedd hyn yn cael ei goladu fel rhan o fatrics hyfforddiant ar gyfer y meddygon teulu er mwyn nodi'n hawdd pwy oedd wedi cwblhau hyfforddiant (neu ddim).</p>					
22.	<p>Roedd polisiau a gweithdrefnau recriwtio priodol ar waith, a disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n briodol</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth am gyflogaeth yn cael ei chasglu a'i chadw yn ffeil personol pob aelod o'r staff.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu</p>	<p>Adolygu'r polisi i gynnwys yr eitemau hynny y tynnwyd sylw atynt.</p> <p>Sicrhau y caiff geirdaon a statws Hepatitis B eu cofnodi ar gyfer pob aelod o staff.</p>	<p>Mr C Williams</p>	<p>Erbyn 31.03.25</p>

	<p>i'w rôl. Fodd bynnag, wrth edrych ar bolisi recriwtio'r practis, nid oedd unrhyw gyfeiriad at wiriadau recriwtio diogel, fel nifer y geirdaon, tystiolaeth o imiwnedd i hepatitis B a chymwysterau proffesiynol. Fodd bynnag, dangosodd adolygiad o gofnodion tri aelod o staff nad oedd unrhyw wybodaeth ar goll o'u ffeiliau.</p>					
23.	<p>Roedd y practis yn ceisio adborth gan gleifion. Roedd gwybodaeth wedi'i harddangos yn nodi sut y gallai pobl roi adborth ar eu profiadau, yn ogystal â blwch sylwadau, adborth ac awgrymiadau yn yr</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio er mwyn helpu i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth a gwella profiad y claf.</p>	<p>Safonau Ansawdd lechyd a Gofal - Gwybodaeth;</p>	<p>Caiff pob adborth a geir gan gleifion ei drafod yn ystod cyfarfodydd y practis a'i ddefnyddio i lywio gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae canlyniadau arolygon cleifion wedi cael eu trafod ar lefel y clwstwr yn ddiweddar.</p>	<p>Dd/G</p>	<p>Dd/G</p>

	<p>ardal aros i gleifion. Fodd bynnag, nid oedd tystiolaeth i ddangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ddefnyddio gan y practis fel mater o drefn er mwyn dysgu a llywio gwelliannau i'r gwasanaeth.</p>			<p>Caiff holl sylwadau'r cleifion eu trafod a rhoddir gwelliannau ar waith lle y bo'n bosibl. (Mae argymhelliad diweddar i wella'r ardal storio beiciau y tu allan wedi cael ei gwblhau yn ystod yr wythnosau diwethaf).</p>		
24.	<p>Roedd gweithdrefn gwyno a pholisi cwyno ar waith a oedd yn gyson â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw gwynion ac roedd hyn yn cael ei gyfleu yn glir yn y polisi cwyno a dogfennau'r weithdrefn. Caiff cwynion/pryderon eu</p>	<p>Dylai'r practis ystyried sut y caiff y gwersi a ddysgwyd a'r gwelliannau a wnaed yn sgil cwynion eu rhannu â phob aelod o'r staff.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth;</p>	<p>Caiff yr holl gwynion a'r ganmoliaeth eu rhannu â'r aelodau priodol o staff a bydd y pwyntiau dysgu yn cael eu hychwanegu at y gyriant a rennir.</p>	<p>Partneriaid Mr C Williams</p>	<p>Parhaus</p>

	<p>monitro er mwyn nodi unrhyw themâu a thueddiadau, a chaiff unrhyw gamau gweithredu er mwyn gwella eu rhannu â'r staff. Roedd system olrhain cwynion effeithiol ar waith i fonitro, adolygu a datrys cwynion ac adborth. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y practis yn rhannu'r gwersi a ddysgwyd mewn cyfarfodydd ac yn ystod arfarniadau.</p>					
25.	<p>Gwnaethom siarad ag uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Gonestrwydd. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith,</p>	<p>Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cefnogaeth i gwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.</p>	<p>Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Gwybodaeth; Y Gweithlu</p>	<p>Mae pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth ers yr ymweliad arolygu.</p> <p>Mae'r holl gofnodion wedi cael eu diweddarau ar y matrices hyfforddiant.</p>	<p>Mr C Williams</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

ond dengys y cofnodion a welsom nad oedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar hyn. Roedd yr hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024. Roedd yr aelodau o staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn deall eu rôl mewn perthynas â'r Ddyletswydd Gonestrwydd.					
---	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Mr C Williams

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad: 03.02.2025